# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Cymunedol Integredig – Tîm Adnoddau Cymunedol / Canolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar a Thîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Canolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR13 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Tîm Canolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Gan weithio ar flaen y gad o ran arfer gorau, mae'r swydd yn gofyn am ymarferydd uwch, medrus iawn sydd â hanes amlwg o feithrin perthnasoedd cynhyrchiol gydag unigolion sy'n oedolion, gofalwyr ac asiantaethau partner.

I gyfrannu at gynllunio gwasanaethau a gwella gwasanaethau, rhoi cyngor arbenigol ar ymarfer gwaith cymdeithasol rhagorol a hyrwyddo Gofal Cymdeithasol Oedolion CBSP fel sefydliad sy'n dysgu.

Bydd y rôl yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd gynnal ymchwil briodol i sicrhau bod ymyriadau sydd wedi'u cyfoethogi gan dystiolaeth yn sail i ymarfer gwaith cymdeithasol; lledaenu canlyniadau gorau a hyrwyddo gwaith cymdeithasol arloesol, effeithlon ac effeithiol.

Bydd y rôl hefyd yn sicrhau bod asesiadau cymesur, cychwynnol, penodol i amser, sy'n seiliedig ar gryfderau, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu cyflawni, gan alluogi unigolion i sicrhau eu hannibyniaeth fwyaf posibl drwy ddull ataliol, a meithrin gwytnwch, lle y bo'n briodol.

Ysbrydoli eraill i ddarparu ymarfer gwaith cymdeithasol rhagorol drwy arwain a hyrwyddo'r lefel uchaf o sgiliau ymarfer a datblygiadau, drwy'r gallu i ysbrydoli a mentora'r tîm.

Mynd ati i hyrwyddo ein ‘Model Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau-Gweithio i Gyflawni Canlyniadau’.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Arwain ar hyrwyddo datblygiad proffesiynol cydweithwyr, gan gynnwys cynllunio, cydgysylltu a chyflawni datblygiad ymarfer tîm a goruchwylio grwpiau (e.e. setiau dysgu gweithredol).
- Ymgymryd â gweithgarwch ymchwil a datblygu i lywio ymarfer, polisi ac arwain ar brosiectau dirprwyedig. Cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth drwy archwilio ymarfer ac adolygiadau rheolaidd o dargedau a safonau perfformiad.
- Ymgorffori dysgu o weithgareddau ymchwil a datblygu, yn seiliedig ar ddadansoddi anghenion hyfforddi, i'w cyflwyno drwy setiau dysgu gweithredol.
- Meddu ar gyfrifoldeb am lwyth achos cymhleth iawn gan gynnal asesiadau, datblygu cynlluniau gofal a chymorth dan gyfarwyddyd gydag unigolion a'u gofalwyr. Cydweithio â gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill sy'n cyd-fynd â'r gwasanaeth, gan alluogi unigolion i gyflawni dyheadau a'r 'hyn sy'n bwysig'.
- Ar y cyd â Rheolwr Tîm y Ganolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar, bod yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau o ansawdd uchel, cymesur, sy'n seiliedig ar gryfderau yn cael eu cynnal o nodau ac anghenion unigolyn, gan nodi'r risgiau o ran annibyniaeth yr unigolyn a'i ofalwyr.
- Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor, asesu a gwneud penderfyniadau, yn seiliedig ar gryfderau, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cyd-fynd â hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer dyheadau a gyfarwyddir gan unigolion. Cyflawni gwybodaeth, cyngor ac asesiadau o ansawdd uchel gydag unigolion, eu teuluoedd a gofalwyr.
- Cynnal y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth, polisi cenedlaethol, ac ymchwil sy'n dod i'r amlwg mewn ymarfer gwaith cymdeithasol, gan ledaenu newidiadau a datblygiadau i gydweithwyr.
- Cyflwyno hyfforddiant mewn meysydd allweddol i wella ymarfer ar draws y gwasanaeth, gan gyfrannu at ddatblygu gweithlu medrus a hyderus.
- Arfer gwneud penderfyniadau uwch mewn ymarfer gwaith cymdeithasol a gallu cynnig cyngor sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg yn y gwasanaeth ac sy'n effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol.
- Hyrwyddo her adeiladol, hwyluso newid ac arloesi i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio sy'n sicrhau bod ymarfer gwaith cymdeithasol o ansawdd uchel, arbenigol yn cael ei ddarparu.
- Gweithio i derfynau amser sy'n cynnwys amgylchiadau sy'n newid yn aml a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro â'i gilydd.
- Gweithredu fel arweinydd ymarfer arbenigol mewn meysydd fel Gofal Iechyd Parhaus y GIG, Amddifadu o Ryddid, Llys Gwarchod ac achosion llys. Rhannu gwybodaeth fanwl arbenigol mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau fel niwroamrywiaeth, salwch cronig cynyddol a hirdymor sy'n cyfyngu ar fywyd ac amhariad sydyn o ganlyniad i drawma.
- Gweithredu fel addysgwr ymarfer neu barodrwydd i ymgymryd â'r cymhwyster priodol i wneud hynny. Darparu safon uchel o hyfforddiant

a mentora personol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol rhagorol.

- Arwain mewn prosesau a dulliau sicrhau ansawdd sy'n mesur ansawdd o ran darparu gwasanaethau ac yn bodloni gofynion arolygu, rheoleiddio a statudol.
- Rheoli a bod yn gyfrifol am adnoddau'r Gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd fel y'u dirprwyir ac fel sy'n ofynnol, gyda lefel uchel o arbenigedd yn ymwneud â gweithdrefnau a meini prawf Gofal Iechyd Parhaus y GIG.
- Cynnal cofnod wedi'i ddiweddaru ar y ffeiliau electronig, a dogfennau perthnasol fel sy'n ofynnol gan y gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd i gyrraedd safonau da ar gyfer arfer.
- Bod yn gyfrifol am eich perfformiad eich hun yn erbyn targedau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol y cytunwyd arnynt.
- Paratoi ar gyfer adolygiadau datblygu personol a chymryd rhan wrth eu goruchwylio gyda’r rheolwr llinell, a nodi anghenion datblygiad personol a hyfforddiant i gynnal cofrestriad.
- Cadw at weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Canolfan Ymyrryd ac Atal yn Gynnar

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig, e.e. CQSW, DipSW, BA Anrh. mewn Gwaith Cymdeithasol.<br>• Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus/hyfforddiant ôl-gymhwyso.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso wrth reoli llwyth achosion cymhleth, amlweddog.<br>• Ymrwymiad i ddulliau amlddisgyblaethol, integredig effeithiol o ran gwaith.<br>• Gwybodaeth a phrofiad o weithio gydag anghenion cymhleth ac eang.<br>• Gwybodaeth am bolisi presennol, canllawiau statudol a'r gyfraith fel y mae'n cael ei chymhwyso ac effaith hyn ar bobl wrth ddarparu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, (gan gynnwys egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y Fframwaith Asesu Integredig a Gofal Iechyd Parhaus y GIG).<br>• Profiad o addysgu ymarfer/goruchwylio/mentora a/neu reoli staff.<br>• Profiad o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | statudol/gwirfoddol/cymunedol i hyrwyddo annibyniaeth unigolion. | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Dealltwriaeth o egwyddorion cymorth dan gyfarwyddyd y dinesydd.<br>• Dealltwriaeth o ddyletswydd gydraddoldeb cyrff cyhoeddus.<br>• Gwybodaeth ragorol am ddamcaniaethau, fframweithiau, modelau ymarfer a chanfyddiadau ymchwil sy'n llywio ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol.<br>• Dealltwriaeth o rôl rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd wrth ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Ymrwymiad i gyflawni'r sgiliau ymarfer proffesiynol uchaf, drwy'r gallu i gymell, mentora a datblygu pob aelod o'r tîm a chydweithwyr.<br>• Gallu blaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad.<br>• Gallu llunio barn broffesiynol a dangos sgiliau gwerthuso uwch, er mwyn darparu cyngor proffesiynol gwybodus i gydweithwyr.<br>• Cymhwyso egwyddorion moesegol gwaith cymdeithasol i arwain ymarfer a rheoli materion, problemau a gwrthdaro moesegol cymhleth.<br>• Gallu defnyddio systemau TG i gofnodi gwaith a rhoi tystiolaeth ohono, gan ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant angenrheidiol.<br>• Gallu gweithio mewn ffordd broffesiynol, gan gynrychioli'r Gyfarwyddiaeth mewn amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy. | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Ymrwymiad i gydraddoldebau ac ymarfer gwrthwahaniaethol a'r gallu i integreiddio polisïau cydraddoldeb i mewn i ddarparu strategaethau a gwasanaeth. | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau partner, gan eu grymuso i gefnogi a chyflwyno syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio i gyflawni nod cyffredin.<br>• Gweithio yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol<br>• Bydd yn ofynnol i chi feddu ar eich cerbyd eich hun.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy.<br><br>Ydy | |